# Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)

Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth

Hydref 2023

## Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)

## Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth

### Cyflwyniad

1. Mae'r ddogfen hon yn rhoi syniad o'r bwriad polisi presennol ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth y byddai gan Weinidogion Cymru y pŵer i'w gwneud yn rhinwedd Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) ("y Bil"), ac a allai gael ei diwygio ymhellach wrth i'r Bil fynd rhagddo drwy broses y Senedd.

2. Lluniwyd y Datganiad er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgorau wrth iddynt graffu ar y Bil. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol a'r Nodiadau Esboniadol cysylltiedig. Llawn nodir manylion llawn gweithdrefn y Senedd sy'n gysylltiedig â phob un o'r pwerau hyn ym Mhennod 5 o'r Memorandwm Esboniadol. Ni chânt eu hailadrodd yn y ddogfen hon.

3. Mae'r Bil yn darparu pwerau mewn deddfwriaeth sylfaenol i alluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno is-ddeddfwriaeth er mwyn creu Rheoliadau, Gorchmynion, Canllawiau a Chodau mewn perthynas ag etholiadau Cymreig. Wrth ddatblygu is-ddeddfwriaeth, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda llywodraeth leol a rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod y darpariaethau yn berthnasol, yn ddilys ac yn gymesur.

4. Mae'r Datganiad yn nodi disgrifiad a bwriad polisi ar gyfer pob pŵer a gynigir yn y Bil. Mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried y defnydd o bwerau yn y Bil fel y nodir isod ac maent wedi eu bodloni eu bod yn angenrheidiol a bod modd eu cyfiawnhau.

5. Pwerau Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ("y Comisiwn") a’r Comisiwn Etholiadau: mae'r Bil hefyd yn rhoi pwerau cyfarwyddo a chanllawiau i'w harfer i’r Comisiwn. Mae hefyd yn rhoi pwerau estynedig i'r Comisiwn Etholiadol mewn perthynas â Chodau Ymarfer penodol. Nodir diben y darpariaethau hyn a'r effaith y bwriedir iddynt ei chael yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil. Nid yw'r pwerau hyn wedi'u cynnwys yn y datganiad hwn o'r bwriad polisi gan mai mater i'r Comisiwn a’r Comisiwn Etholiadol yw sut y byddant yn cael eu harfer.

### Trosolwg o’r Bil

6. Rhennir y Bil hwn yn 3 Rhan sy'n cynnwys 71 o adrannau ac Atodlen o fân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i ddarnau eraill o ddeddfwriaeth.

*Rhan 1: Gweinyddu a Chofrestru Etholiadol*

7. Mae Rhan 1 yn cynnwys darpariaethau ynghylch gweinyddu etholiadol a chofrestru etholiadol mewn perthynas ag etholiadau Senedd Cymru ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru:

- Rhoi'r swyddogaethau o ran goruchwylio cydlynu a gweinyddu etholiadau Cymreig, cydweithio â Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol, a chynghori Gweinidogion Cymru ar weinyddu etholiadol i Fwrdd Rheoli Etholiadol; i'w sefydlu gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru presennol ("y Comisiwn"). Bydd y Comisiwn yn cael ei ailenwi yn Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn rhan o Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).
- Cyflwyno cofrestru etholiadol heb gais, a'r gallu i beilota'r dulliau mwyaf priodol ar gyfer cyflawni hyn.
- Rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i gyflwyno peilotau etholiadol mewn perthynas â'r mwyafrif o agweddau ar y broses etholiadol sy'n ymwneud ag etholiadau Cymreig.
- Creu dyletswydd a roddir i Weinidogion Cymru i roi trefniadau ar waith i geisio gwella amrywiaeth o fewn strwythurau democrataidd y Senedd a llywodraeth leol, ac i greu a theilwra cynlluniau unigol er mwyn darparu cymorth ar gyfer nodweddion gwarchodedig.
- Dileu'r gofyniad i nodi geiriad a fformat penodol arolwg ymgeiswyr llywodraeth leol mewn rheoliadau. Cyflwyno dull craidd Cymru gyfan wedi'i ategu gan ddull mwy teilwredig i alluogi awdurdodau lleol i ofyn cwestiynau am fentrau lleol yn y maes hwn.
- Creu gofyniad ar gyfer platfform gwybodaeth etholiadau Cymreig a all gynnal gwybodaeth i ymgeiswyr a phleidleiswyr ynghylch etholiadau'r Senedd ac etholiadau cyffredin prif gynghorau.
- Dal ymgeiswyr ac asiantiaid yn atebol am wariant tybiannol dim ond pan fyddant yn ei gyfarwyddo, caniatáu i bersonau awdurdodedig wneud taliadau heb ddefnyddio asiant etholiad, a chyfyngu ar bwy all weithredu yn ymgyrchydd trydydd parti mewn etholiadau datganoledig. I gefnogi'r newidiadau hyn i gyllid ymgyrchu, mae'r Bil hefyd yn cynnig galluogi'r Comisiwn Etholiadol i gynnwys y rhain yn ei godau ymarfer.

*Rhan 2: Cyrff Etholedig a'u haelodau*

8. Mae Rhan 2 yn gwneud darpariaeth ynghylch adolygiadau o ffiniau a threfniadau etholiadol awdurdodau lleol, cydnabyddiaeth ariannol aelodau awdurdodau lleol, anghymhwyso rhag bod yn aelodau o Senedd Cymru ac awdurdodau lleol a'r drosedd o ddylanwad amhriodol. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer:

- Addasiadau i rôl a chylch gwaith y Comisiwn, gan gynnwys newidiadau i swyddogaethau ei bwyllgor archwilio, cryfhau trefniadau adolygu etholiadol yn sylweddol, diddymu Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ogystal â rhoi'r mwyafrif o swyddogaethau a gyflawnir ar hyn o bryd gan y Panel hwnnw i'r Comisiwn. Bydd y Comisiwn hefyd yn gyfrifol am benderfynu ar swm unrhyw daliad ailsefydlu sy'n daladwy i gynghorwyr sy'n dod o dan ddosbarthiadau o gynghorwyr a bennir gan Weinidogion Cymru ac sy'n methu â chael eu hailethol i'r cyngor mewn etholiad cyngor lleol.
- Anghymhwyso cynghorwyr tref a chymuned yng Nghymru rhag gwasanaethu yn Aelodau o'r Senedd a dileu'r "cyfnod gras" presennol ar gyfer prif gynghorwyr a etholir i'r Senedd ac Aelodau o'r Senedd a etholir yn Aelodau Seneddol.
- Addasu'r diffiniad o drosedd dylanwad amhriodol ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

*Rhan 3: Darpariaethau Cyffredinol*

9. Mae Rhan 3 yn cynnwys darpariaethau sy'n gymwys i'r Bil yn gyffredinol, gan gynnwys, darpariaeth ddehongli gyffredinol, y pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ganlyniadol a darpariaeth drosiannol drwy reoliadau, a darpariaeth ynglŷn â dod â'r Bil i rym.

## Bwrdd Rheoli Etholiadol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

| Adran y Bil | Ffurf | Disgrifiad o'r pŵer |
|---|---|---|
| Adran 20E(3)(c) o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru 2013 ("Deddf 2013") (fel y'i mewnosodwyd gan adran 1(2) o'r Bil) | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn yn angenrheidiol i alluogi Gweinidogion Cymru i roi swyddogaethau pellach i'r Comisiwn (yn ychwanegol i adrannau newydd 20A i 20D o Ddeddf 2013 a Phennod 3 o Ran 1 o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 (peilota a diwygio etholiadau Cymreig)), i'w harfer gan y Bwrdd Rheoli Etholiadol. |

**Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi'r Pŵer**

Drwy'r Bil, bydd swyddogaethau newydd o ran goruchwylio gweinyddu etholiadol a chynnal etholiadau yng Nghymru yn cael eu rhoi i fwrdd newydd yn y Comisiwn, sef y Bwrdd Rheoli Etholiadol. Pwrpas y swyddogaethau hyn fydd hyrwyddo arferion gorau mewn gweinyddu etholiadol a chefnogi'r gymuned etholiadol yng Nghymru, gan gynnwys Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau mewn cysylltiad ag etholiadau datganoledig. Ni chynigir y bydd y swyddogaethau hyn yn rhoi'r pŵer i'r Comisiwn arfer swyddogaethau presennol Swyddogion Canlyniadau neu Swyddogion Cofrestru Etholiadol yng Nghymru.

Mae'r pŵer a amlinellir yn y tabl yn angenrheidiol oherwydd efallai y bydd angen i Weinidogion Cymru, yn y dyfodol, roi swyddogaethau pellach sy'n ymwneud â gweinyddu etholiadol i'r Bwrdd Rheoli Etholiadau. Enghraifft o sefyllfa lle y gallai darpariaethau a bennir mewn rheoliadau ychwanegu at swyddogaethau'r Comisiwn yw y rhagwelir y byddai'r Bwrdd Rheoli Etholiadol yn rhoi'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig ar waith. Bydd adran 27(1) o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer platfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig. Gallai rheoliadau o'r fath roi swyddogaethau i'r Comisiwn (i'w harfer gan y Bwrdd Rheoli Etholiadol) mewn perthynas â'r platfform hwnnw.

O ganlyniad i'r diwygiad a wneir gan baragraff 1(5)(b) o Atodlen 1 i'r Bil (a fewnosododd baragraff newydd (ba) yn adran 71(2) o Ddeddf 2013), bydd rheoliadau sy'n rhoi swyddogaethau Comisiwn i'w harfer gan y Bwrdd Rheoli Etholiadol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol, oni bai eu bod yn diwygio Deddf gan Senedd y DU, Mesur gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru,

neu Ddeddf gan y Senedd, ac os felly, byddant yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn rhinwedd adran 71(3) o Ddeddf 2013.

Mae'r pŵer hefyd yn darparu ar gyfer unrhyw angen yn y dyfodol i Weinidogion Cymru roi swyddogaethau eraill y Comisiwn sy’n ymwneud â gweinyddu etholiadol i’r Bwrdd Rheoli Etholiadol.

| Adran y Bil | Ffurf | Disgrifiad o'r pŵer |
|---|---|---|
| Paragraff 1(4) o Atodlen 1 (yn diwygio adran 14 o Ddeddf 2013) | Cyfarwyddydau | Mae gan Weinidogion Cymru bŵer i ddyroddi cyfarwyddydau i'r Comisiwn o dan adran 14 o Ddeddf 2013. Mae'r paragraff hwn yn diwygio'r pŵer hwnnw i gyfyngu cwmpas unrhyw gyfarwyddyd er mwyn atal Gweinidogion Cymru rhag dyroddi cyfarwyddydau mewn perthynas â swyddogaethau gweinyddu etholiadol y Comisiwn o dan Ran 2A, neu ei swyddogaethau sy'n ymwneud ag adolygiadau ffiniau etholaethau'r Senedd o dan Ran 3A. Caiff hwn ei ddiwygio er mwyn sicrhau annibyniaeth y Comisiwn mewn perthynas ag arfer ei swyddogaethau mewn cysylltiad â'r Bwrdd Rheoli Etholiadol. |

**Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi’r Pŵer**

Mae paragraff 1(4) yn rhoi is-adrannau newydd (1A), (1B) ac (1C) yn lle adran 14(1) o Ddeddf 2013, sy’n ymdrin â chyfarwyddiadau a roddir i’r Comisiwn gan Weinidogion Cymru.

Mae is-adran (1A) yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddyroddi cyfarwyddiadau i’r Comisiwn mewn perthynas â swyddogaethau’r Comisiwn, ac eithrio mewn perthynas â’i swyddogaethau o dan Ran 2A o Ddeddf 2013 sy’n ymwneud â chydlynu gweinyddu etholiadol, neu ei swyddogaethau o dan Ran 3A o Ddeddf 2013 sy’n ymwneud â ffiniau etholaethau’r Senedd.

Mae is-adran (1B) yn nodi bod rhaid i’r Comisiwn gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir iddo gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf 2013, ac mae is-adran (1C) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi pob cyfarwyddyd y maent yn ei roi i’r Comisiwn neu i brif gyngor o dan Ddeddf 2013 ("prif gyngor" yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru).

## Dyletswydd i gofrestru etholwyr llywodraeth leol heb gais

| Adran y Bil | Ffurf | Disgrifiad o'r Pŵer |
|---|---|---|
| Adran 3 (yn mewnosod adran newydd 9ZA(6)(a)-(c) yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983). | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch yr hyn sydd ei angen yn yr hysbysiad cofrestru a anfonir at bob etholwr sydd i'w gael ei gofrestru'n awtomatig. |

**Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi'r Pŵer**

Mae adran 9ZA(6) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth mewn rheoliadau ynghylch gofynion hysbysiadau i berson y mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn ystyried ei gofrestru o dan yr adran, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddarpariaeth ynghylch ffurf yr hysbysiad a sut ac i bwy y caiff ei ddarparu.

Mae sylwedd y pŵer hwn wedi'i nodi ar wyneb y Bil, hynny yw, yr hyn y mae'n rhaid i Swyddog Cofrestru Etholiadol ei gynnwys yn yr hysbysiad cofrestru. Byddai'r pwerau gwneud rheoliadau hyn yn cael eu defnyddio i ddiweddaru'r rhestr hon yn dilyn argymhellion cynlluniau peilot ar gofrestru awtomatig, neu yn y dyfodol i adlewyrchu unrhyw newidiadau pellach a argymhellir a fyddai'n cefnogi'r etholwr i ddeall y broses hon.

Mae hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch yr hyn sydd ei angen yn yr hysbysiad cofrestru a anfonir at bob person sydd i'w gael ei gofrestru'n awtomatig. Bydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiweddaru'r rhestr o wybodaeth ofynnol yn unol â gweithgarwch a beilotwyd, ac yn y dyfodol os bydd gwerthusiad o'r cynllun cofrestru awtomatig yn tynnu sylw at yr angen am wybodaeth hanfodol i etholwyr.

## Rheoliadau peilot: pwerau

| Adran y Bil | Ffurf | Disgrifiad o'r Pŵer |
|---|---|---|
| Adran 5 | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ar gyfer cynnal cynlluniau peilot etholiadol sy'n ymwneud â materion etholiadol perthnasol (fel y'u diffinnir gan adran 5(3)) mewn etholiadau Cymreig (etholiadau cyffredin Senedd Cymru, etholiadau llywodraeth leol cyffredin ac is-etholiadau llywodraeth leol). Caiff Gweinidogion Cymru hefyd ddefnyddio'r pŵer hwn i dreialu'r darpariaethau cofrestru diwygiedig a gyflwynir gan adran 3(4). |

### Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi'r Pŵer

Bydd y pŵer newydd hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru, awdurdodau lleol, y Comisiwn Etholiadol ar y cyd ag awdurdodau lleol a Swyddogion Cofrestru Etholiadol gynnig peilotau etholiadol ar draws gwahanol feysydd gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: sut y caiff pobl sy'n gymwys i bleidleisio mewn etholiad Cymreig eu cofrestru; pryd, ble a sut y bydd pleidleisio mewn etholiad Cymreig yn digwydd; pryd, ble a sut y caiff pleidleisiau sy'n cael eu bwrw eu cyfrif; cyfathrebu â phleidleiswyr ynghylch yr etholiadau; a phrosesau a gweithdrefnau gweinyddol cyn y diwrnod pleidleisio neu ar ôl hynny. Am y tro cyntaf, bydd y pŵer hwn yn caniatáu i beilotau gael eu cynnal ar gyfer etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol a byddant hefyd yn berthnasol i is-etholiadau llywodraeth leol. Bydd hyn yn sicrhau sawl cyfle i dreialu gwahanol beilotau mewn gwahanol sefyllfaoedd gyda'r nod o ddarparu'r sail dystiolaeth orau bosibl ar gyfer deall effaith y gweithgarwch a beilotwyd.

Fel y nodir yn Adran 9, bydd yn ofynnol i'r pleidiau sy'n cynnig unrhyw gynllun peilot gyflwyno unrhyw gynnig i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru. Mae Adran 1 yn y Bil yn cadarnhau bod yn rhaid i'r Comisiwn roi pob swyddogaeth ym Mhennod 3 y Bil i'r Bwrdd Rheoli Etholiadol, ac felly bydd cyfeiriadau pellach at y Bwrdd Rheoli Etholiadol yn rhwydd. Bydd gofyn i'r Bwrdd Rheoli Etholiadol adrodd ar y cynlluniau peilot arfaethedig, gan nodi eu barn a'u hargymhellion mewn perthynas â'r dichonoldeb a'r canlyniadau arfaethedig. Er y dylid ystyried argymhellion y Bwrdd Rheoli Etholiadol cyn gwneud y ddarpariaeth ddeddfwriaethol angenrheidiol ar gyfer cynllun peilot, ni fydd gan y Bwrdd Rheoli Etholiadol y pŵer i feto cynigion peilota. Rhaid gosod yr adroddiad a baratowyd gan y Bwrdd Rheoli Etholiadol gerbron y Senedd pan osodir unrhyw reoliadau peilot y mae'r adroddiad yn ymwneud â hwy.

### Rheoliadau peilot: pŵer i ddiwygio'r rhestr o faterion etholiadol yn adran 5(3)

| Adran y Bil | Ffurf | Disgrifiad o'r Pŵer |
|---|---|---|
| Adran 8(1) | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ychwanegu materion etholiadol pellach at y rhestr yn adran (3) y gellir cynnal cynlluniau peilot mewn cysylltiad â hi, neu i ddileu neu ddiwygio materion a ychwanegwyd yn flaenorol gan ddefnyddio'r pŵer hwn. |

**Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi'r Pŵer**

Bydd y pŵer hwn yn rhoi hyblygrwydd i ganiatáu i Weinidogion Cymru ychwanegu at y rhestr o faterion etholiadol yn adran 5(3) o'r Bil y gellir cynnal cynlluniau peilot mewn cysylltiad â hi, neu i ddileu neu addasu materion a ychwanegwyd yn flaenorol gan ddefnyddio'r pŵer hwn. Fodd bynnag, ni ellir diwygio'r rhestr i alluogi cynnal cynlluniau peilot mewn cysylltiad â'r system bleidleisio ar gyfer dychwelyd Aelodau o Senedd Cymru, prif gyngor neu gyngor cymuned.

### Gwerthuso cynigion ar gyfer peilot

| Adran y Bil | Ffurf | Disgrifiad o'r Pŵer |
|---|---|---|
| Adran 15(3) | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliad, i nodi ffactorau y mae'n rhaid i'r Bwrdd Rheoli Etholiadau yn ymarfer ei swyddogaeth drwy'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru roi sylw iddynt pan fydd yn gwerthuso unrhyw gynigion ar gyfer cynlluniau peilot. Yn ogystal â'r gofynion a nodir ar wyneb y Bil (adran 15(2)), caniateir i Weinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer hwn i'w gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ystyried ffactorau ychwanegol pan fydd yn gwerthuso peilotau sydd wedi cael eu cyflwyno iddo i'w hystyried. |

**Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi'r Pŵer**

Mae adran 15(2) o'r Bil yn cynnwys y gofynion sylfaenol o ran y materion y mae'n rhaid i'r Bwrdd Rheoli Etholiadol roi sylw iddynt ac adrodd arnynt pan fydd yn ystyried cynlluniau peilot a gynigiwyd.

Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ychwanegu ffactorau ychwanegol at y materion y mae'n rhaid i'r Bwrdd Rheoli Cymru eu hystyried ac adrodd arnynt. Mae'r pŵer hwn yn weinyddol yn bennaf.

## Canllawiau ar beilotau

| Adran y Bil | Ffurf | Disgrifiad o’r Pŵer |
|---|---|---|
| Adran 17(4) | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi materion pellach y mae'n rhaid i'r Bwrdd Rheoli Etholiadau yn ymarfer ei swyddogaeth drwy’r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru eu cynnwys wrth lunio canllawiau ar gynlluniau peilot. |

### Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi’r Pŵer

Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Rheoli Cymru gyhoeddi canllawiau ar sut i gynnal peilot. Mae'n rhaid i'r canllawiau gynnwys cyngor ynghylch trefniadau angenrheidiol y peilot, yr hyfforddiant staff sy’n ofynnol, yn ogystal â sut i gynnal y peilot yn unol â’r rheoliadau peilot (adran 17(1) a (2)). Bydd modd diwygio’r rhestr o faterion perthnasol sydd i'w cynnwys yn y canllawiau drwy reoliadau pellach, a thrwy hynny, sicrhau hyblygrwydd yn y dyfodol os bydd Gweinidogion Cymru yn dymuno pennu meini prawf eraill y dylid eu cynnwys pan fo cynlluniau peilot penodol yn cael eu cynnal.

## Rheoliadau diwygio etholiadol

| Adran y Bil | Ffurf | Disgrifiad o'r pŵer |
|---|---|---|
| Adran 19(3) | Rheoliadau | Mae’r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud newidiadau parhaol i gyfraith etholiadol yn dilyn peilot llwyddiannus. |

**Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi’r Pŵer**

Mae adran 19 o'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno newidiadau parhaol, yn debyg i’r rhai a dreialwyd mewn cynllun peilot, a hynny drwy reoliadau diwygio etholiadol. Caiff rheoliadau diwygio etholiadol gymhwyso’r newid a beilotwyd i unrhyw etholiad Cymreig, neu i bob un ohonynt. Fodd bynnag, dim ond ar argymhelliad y Comisiwn Etholiadol y gellir gwneud rheoliadau o’r fath. Mae hyn er mwyn sicrhau bod newidiadau i'r system etholiadol wedi cael eu gwerthuso'n annibynnol a'u bod yn cael eu barnu i fod o fudd i'r pleidleisiwr neu y byddant yn gwella gweinyddu neu brosesau etholiadol.

## Arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr aflwyddiannus mewn etholiadau lleol

| Adran y Bil | Ffurf | Disgrifiad o'r pŵer |
|---|---|---|
| Adran 26(2) (yn diwygio adran 1(3) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011) | Cyfarwyddydau | Mae'r pŵer hwn yn dileu'r gofyniad i nodi fformat yr arolwg a'r cwestiynau mewn rheoliadau. Yn hytrach, mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i nodi'r rhain mewn cyfarwyddyd i awdurdodau lleol. Mae'n galluogi proses o gytuno ar set o gwestiynau craidd ar sail Cymru gyfan ac i awdurdodau lleol gynnwys cwestiynau wedi'u teilwra i fentrau lleol yn y maes polisi hwn. |

**Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi'r Pŵer**

Ers 2011, mae'n ofyniad cyfreithiol ar awdurdodau lleol i fonitro cydraddoldeb ac amrywiaeth ymgeiswyr sy'n ceisio cael eu hethol i brif gynghorau a chynghorau tref a chymuned. Caiff y gofyniad ei nodi yn adran 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ("Mesur 2011"). Diben yr arolwg yw deall nodweddion yr amrywiaeth eang o bobl sy'n mynd ati i geisio cael eu hethol yn gynghorwyr; a deall sut y mae proffil y grŵp hwn yn newid dros amser. Mae'r wybodaeth a gesglir o'r arolygon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddeall effaith polisïau sy'n ceisio ehangu cyfranogiad mewn llywodraeth leol a chefnogi datblygiad polisi yn y dyfodol.

Mae hyrwyddo a chefnogi amrywiaeth ymysg aelodau etholedig lleol yn parhau i fod yn un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. I gyflawni hyn, mae data cyfres amser cadarn yn bwysig i olrhain newidiadau amrywiaeth dros amser.

O ganlyniad i gyflwyno'r pŵer hwn, bydd yn haws newid elfennau o'r arolwg wrth i bolisïau amrywiaeth a chydraddoldeb ddatblygu. Yn y dyfodol, bydd geiriad yr arolwg yn cael ei adolygu gan grŵp o bartneriaid allweddol, gan gynnwys llywodraeth leol, cynrychiolwyr grwpiau cydraddoldeb a phartïon eraill sydd â diddordeb. O ganlyniad, bydd y grŵp yn gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch newidiadau a gwelliannau a gynigir.

Bydd yr arolwg yn cynnwys set o gwestiynau craidd a fydd yn berthnasol i gyfranogwyr ym mhob cwr o Gymru. Bydd darpariaeth hefyd i awdurdodau lleol ychwanegu cwestiynau i geisio darparu gwybodaeth ynghylch mentrau lleol. Mae'r dull hwn yn darparu ar gyfer cysondeb ledled Cymru, parhad cyfres amser y set ddata yn ogystal â galluogi hyblygrwydd lleol.

Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi unrhyw gyfarwyddyd a roddir o dan adran 1 o Fesur 2011.

### Platfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig

| Adran y Bil | Ffurf | Disgrifiad o'r pŵer |
|---|---|---|
| Adran 27(1) | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer platfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig. Rhaid i’r rheoliadau hefyd nodi trefn ar gyfer adrodd ar gynnal y platfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig, a'i effaith. |

**Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi’r Pŵer**

Mae’r darpariaethau yn adran 27 yn ymwneud â sicrhau bod gwybodaeth am etholiadau Cymreig ar gael i helpu pleidleiswyr i gymryd rhan mewn etholiadau Cymreig. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, sefydlu a chynnal platfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig sy’n darparu gwybodaeth gyfredol am etholiadau Senedd Cymru ac etholiadau cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru. Mae hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru (ond nid yw'n ofynnol iddynt) i wneud rheoliadau ynghylch gwybodaeth y dylid ei chynnwys ar y platfform mewn perthynas ag etholiadau cynghorau cymuned ac etholiadau maerol yng Nghymru.

Mae hwn yn gyfle i gynorthwyo Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bleidleiswyr ledled y wlad a hynny gyda mwy o gysondeb o ran sut a phryd y caiff gwybodaeth ei darparu i bleidleiswyr. Byddai platfform ar-lein yn gyfrwng defnyddiol i ddarparu un pwynt mynediad a allai gynnal a/neu gyfeirio’r ymwelydd at wefannau partneriaid sy’n ymwneud â chyfathrebu etholiadol.

Caniateir i Weinidogion Cymru benderfynu pwy yw’r sefydliad gorau i ddarparu ar gyfer platfform o’r fath a pha wybodaeth, yn ychwanegol at yr wybodaeth a ragnodir mewn deddfwriaeth sylfaenol, y dylid ei darparu i bleidleiswyr i gefnogi eu cyfranogiad yn etholiadau’r Senedd ac etholiadau prif gynghorau yng Nghymru gyda phŵer i gynnwys gwybodaeth mewn perthynas ag etholiadau llywodraeth leol.

Rhaid i’r rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan yr adran hon hefyd ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi a gosod gerbron y Senedd adroddiad ynghylch sut y maent wedi sefydlu’r platfform a’i gynnal. Rhaid i adroddiad gael ei gyhoeddi dim mwy na 12 mis ar ôl etholiad y Senedd ac etholiad cyffredin prif gynghorau.

## Gwasanaethau i hybu amrywiaeth ymhlith personau sy’n ceisio swydd etholedig

| Adran y Bil | Ffurf | Disgrifiad o'r pŵer |
|---|---|---|
| Adran 28(8) | Rheoliadau | Mae’r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu i ychwanegu gwasanaethau pellach at y rhestr yn adran 28(5), neu ddiwygio neu ddileu gwasanaethau a ychwanegwyd eisioes at y rhai y gellir eu darparu i hybu amrywiaeth ymhlith personau sy’n ceisio swydd etholedig. |

**Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi’r Pŵer**

Bydd creu Cymru decach, lle y mae gan bawb y cyfle i gymryd rhan mewn cymdeithas a chyrraedd eu potensial llawn a’r gallu i gyfrannu’n llawn at yr economi, yn galluogi Cymru i fod yn fwy ffyniannus ac arloesol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynyddu amrywiaeth ar draws pob agwedd ar fywyd cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys cynyddu amrywiaeth ymhlith ymgeiswyr sy’n sefyll mewn etholiadau Cymreig drwy fynd i’r afael â’r rhwystrau sy’n atal unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig rhag ceisio am swyddi etholedig. Y bwriad yw mynd i’r afael â rhwystrau o’r fath a gwella cyfleoedd i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol chwarae rhan lawn o ran cynorthwyo a chynrychioli eu cymunedau. Er enghraifft, mae pobl anabl yn debygol o wynebu costau uwch wrth geisio am swyddi etholedig oherwydd eu hamhariadau.

Mae adran 28(1) o'r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi trefniadau ar waith ar gyfer darparu gwasanaethau i hybu amrywiaeth o ran nodweddion gwarchodedig ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol personau sy’n ceisio sefyll i gael eu hethol yn aelodau o Senedd Cymru, cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau cymuned yng Nghymru. Mae adran 28(5) yn nodi rhestr gynhwysfawr o’r gwasanaethau y gellir eu darparu o dan y trefniadau sy’n ofynnol gan yr adran hon. Y gwasanaethau yw gwybodaeth, cyngor, hyfforddiant, coetsio a mentora, profiad gwaith, cyfarpar a chymorth â thasgau. Mae adran 28(8) yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ychwanegu at y rhestr o wasanaethau a diwygio neu ddileu unrhyw wasanaethau a ychwanegir gan y rheoliadau.

## Cynlluniau cymorth ariannol i hybu amrywiaeth ymhlith personau sy’n ceisio swydd etholedig

| Adran y Bil | Ffurf | Disgrifiad o'r pŵer |
|---|---|---|
| Adran 29(1) | Rheoliadau | Mae’r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu ar gyfer cynlluniau cymorth ariannol i helpu ymgeiswyr, sydd â nodweddion neu amgylchiadau penodol, i oresgyn rhwystrau rhag cymryd rhan yn yr etholiad sy’n gysylltiedig â’r nodweddion neu’r amgylchiadau hynny.<br>Yn unol ag is-adran (6) mae’n rhaid i Weinidogion Cymru benodi neu ddarparu ar gyfer penodi person i weithredu'r cynllun y maent yn darparu ar ei gyfer. |
| Adran 29(2) | Rheoliadau | Rhaid i Weinidogion Cymru nodi trefniadau i ddarparu cymorth ariannol i ymgeiswyr anabl sy’n sefyll mewn etholiad yng Nghymru i oresgyn rhwystrau rhag cymryd rhan lawn ac effeithiol yn yr etholiad sy’n gysylltiedig â’u hanabledd. |

**Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi’r Pŵer**

Yn 2021, sefydlwyd cronfa beilot Mynediad i Swyddi Etholedig i ddarparu cymorth ychwanegol i bobl anabl geisio am swyddi etholedig. Cynorthwyodd y gronfa beilot unigolion a oedd yn ceisio etholiad yn etholiadau’r Senedd ym mis Mai 2021 ac yn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022. Cafodd newidiadau eu gwneud i’r rheolau ynghylch terfynau gwario ymgeiswyr er mwyn sicrhau nad oedd y cyllid a ddarparwyd drwy’r peilot yn cyfrif tuag at derfynau gwario ymgeiswyr.

Mewn ymateb i’r ymgynghoriad Papur Gwyn Gweinyddu a Diwygio Etholiadau 2022, cafwyd cefnogaeth eang ar gyfer gosod y gronfa ar sail ddeddfwriaethol. Mae adran 29(2) o’r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer cynllun cymorth ariannol (o unrhyw fath penodedig) i gynorthwyo ymgeiswyr anabl mewn etholiad Cymreig i oresgyn rhwystrau rhag cymryd rhan yn yr etholiad sy’n gysylltiedig â’u hanabledd. Bwriedir i effaith y ddarpariaeth hon roi sicrwydd i ymgeiswyr anabl yn ogystal ag ystyried y profiadau a gafwyd yn sgil y gronfa beilot.

Er mai'r bwriad gwreiddiol oedd estyn trefniadau'r gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig i gynnwys unigolion o grwpiau nodweddion gwarchodedig eraill, daeth gwerthusiad annibynnol o drefniadau'r Gronfa i'r casgliad na fyddai hyn efallai yn cyflawni'r amcanion polisi o ran cefnogi ystod ehangach o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Teimlwyd y byddai cymorth wedi'i deilwra'n fwy i wahanol grwpiau o bobl sydd â nodweddion penodol neu amgylchiadau arbennig yn mynd i'r afael yn well â'r rhwystrau i gymryd rhan mewn etholiadau.  O ganlyniad, mae adran 29(1) yn darparu dull gwahanol sy'n galluogi i drefniadau pwrpasol gael eu datblygu a'u gweithredu.

## Codau ymarfer ar dreuliau

| Adran y Bil | Ffurf | Disgrifiad o'r pŵer |
|---|---|---|
| Adran 34(1)(b) (yn diwygio paragraff 14A o Atodlen 4A i Ddeddf 1983) | Gorchymyn | Mae paragraff 14A(7)(b) o Atodlen 4A i Ddeddf 1983 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddod â chod ymarfer i rym ar ddyddiad a bennir drwy orchymyn. Mae adran 34(1)(b) yn diwygio'r pŵer i ddarparu bod rhaid i'r gorchymyn gael ei wneud drwy offeryn statudol. |

**Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi'r Pŵer**

I gynorthwyo eglurder ar gyfer cyfranogwyr a gweinyddwyr, mae'r Bil yn diwygio pŵer y Comisiwn Etholiadol i lunio cod ymarfer ar dreuliau etholiad er mwyn sicrhau ei fod yn ddigon eang fel bod modd cynnwys esboniad o'r rheolau ar bob math o wariant.

Mae paragraff 14A o Atodlen 4A i Ddeddf 983 (fel y'i diwygiwyd gan y Bil) yn caniatáu i'r Comisiwn Etholiadol lunio canllawiau i'w defnyddio gan ymgyrchwyr, sy'n nodi'r gofynion cyfreithiol ynghylch gwariant ymgyrchu mewn etholiadau llywodraeth leol. Bydd Gweinidogion Cymru yn dod â'r canllawiau i rym drwy orchymyn, ac o ganlyniad i'r diwygiad a wneir gan y Bil hwn, bydd y gorchymyn hwnnw'n cael ei wneud drwy offeryn statudol.

### Trydydd partïon sy'n gallu rhoi hysbysiad

| Adran y Bil | Ffurf | Disgrifiad o'r pŵer |
|---|---|---|
| Adran 37(2) (yn diwygio adran 88 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 ("Deddf 2000")) | Gorchymyn | Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio’r rhestr o ddisgrifiadau o drydydd partïon, y darperir ar eu cyfer yn adran 88(2) o Ddeddf 2000, sy’n gallu cofrestru i ymgyrchu mewn cyfnod etholiad o'r Senedd a reoleiddir, gan ganiatáu iddynt fynd i wariant o fwy na £700. Gall gorchymyn ychwanegu, dileu neu addasu disgrifiad o’r trydydd partïon hynny dim ond ar argymhelliad y Comisiwn Etholiadol. |

**Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi’r Pŵer**

Mae adran 37 yn mewnosod adran 88(11) a (12) yn Neddf 2000, i ganiatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio'r rhestr o ddisgrifiadau o drydydd partïon a all fynd i wariant a reolir yn ystod cyfnod rheoleiddiedig datganoledig Cymreig. Gellir ychwanegu disgrifiadau trydydd partïon at y rhestr neu eu tynnu oddi arni, neu gellir amrywio'r rhestr. Fodd bynnag, dim ond ar argymhelliad y Comisiwn Etholiadol y gellir dileu neu amrywio’r partïon sydd wedi’u cynnwys ar y rhestr. Bydd hyn yn sicrhau y gellir cadw’r rhestr o ddisgrifiadau o ddrydydd partïon cymwys yn wyneb unrhyw ddatblygiadau, ac osgoi atal yn ddiangen math newydd o drydydd parti rhag gallu ymgyrchu mewn etholiad.

### Cod ymarfer ar reolaethau sy'n ymwneud â thrydydd partïon

| Adran y Bil | Ffurf | Disgrifiad o'r pŵer |
|---|---|---|
| Adran 38(4) (yn mewnosod adran newydd 100C(8)(b) yn Neddf 2000) | Gorchymyn | Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddod â chod ymarfer i rym ynghylch y rheolaethau ar wariant trydydd parti yn ystod ymgyrch etholiadol y Senedd fel y'i llunnir gan y Comisiwn Etholiadol o dan adrannau 100A a 100C o Ddeddf 2000 ar ddyddiad a bennir drwy orchymyn. |

**Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi'r Pŵer**

Mae adran 38 o'r Ddeddf yn mewnosod darpariaeth newydd yn Neddf 2000 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol lunio cod ymarfer ynghylch y rheolaethau ar wariant trydydd parti yn ystod ymgyrch etholiadol y Senedd (mae adran 38(2)(a) yn mewnosod adran newydd 100A(1A) yn Neddf 2000). Mae adran 38(4) yn mewnosod adran newydd 100C yn Neddf 2000 sy'n nodi'r weithdrefn ar gyfer llunio a mabwysiadu'r cod ymarfer. Caiff unrhyw god ymarfer o'r fath ei ddwyn i rym drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru (adran 100C(8) o Ddeddf 2000).

Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol lunio'r cod ymarfer ar gyfer trydydd partïon er mwyn helpu ymgyrchwyr trydydd parti i ddeall y trefniadau. Bydd yn cael ei lunio mewn ymgynghoriad â Phwyllgor y Llywydd a Phwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad y Senedd, neu unrhyw bwyllgor olynol. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru osod drafft o unrhyw god ymarfer o'r fath gerbron y Senedd. Os yw'r Senedd yn penderfynu peidio â chymeradwyo fersiwn ddrafft o'r cod, ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn yn ei ddwyn i rym.

### Y cyfnod adolygu ar gyfer adolygiadau prif ardal

| Adran y Bil | Ffurf | Disgrifiad o'r pŵer |
|---|---|---|
| Adran 41(2) | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i newid hyd y cyfnod adolygu ac ailosod dyddiad dechrau'r cyfnod adolygu ar gyfer adolygiadau o drefniadau etholiadol prif ardal. |

**Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi'r Pŵer**

Mae newid y cyfnod adolygu ac ailosod dyddiad dechrau'r cyfnod adolygu yn fanylyn technegol y gallai fod ei angen os bydd tarfu ar raglen adolygu. Mae enghreifftiau o sefyllfaoedd a fyddai'n ysgogi defnyddio'r pŵer hwn yn cynnwys argyfwng iechyd cyhoeddus, newid yn y dyddiad ar gyfer etholiad llywodraeth leol neu i ddarparu mwy o synergedd rhwng cyfnodau adolygu trefniadau prif ardal a chymunedau.

### Y cyfnod adolygu ar gyfer adolygiadau cymunedau

| Adran y Bil | Ffurf | Disgrifiad o'r pŵer |
|---|---|---|
| Adran 51(3) | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i newid hyd y cyfnod adolygu ac ailosod dyddiad dechrau'r cyfnod adolygu ar gyfer adolygiadau cymunedau. |

**Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi'r Pŵer**

Mae newid y cyfnod adolygu ac ailosod dyddiad dechrau'r cyfnod adolygu yn fanylyn technegol y gallai fod ei angen os bydd tarfu ar raglen adolygu. Mae enghreifftiau o sefyllfaoedd a fyddai'n ysgogi defnyddio'r pŵer hwn yn cynnwys argyfwng iechyd cyhoeddus, newid yn y dyddiad ar gyfer etholiad llywodraeth leol neu i ddarparu mwy o synergedd rhwng cyfnodau adolygu trefniadau prif ardal a chymunedau.

### Cyfarwyddydau i oedi adolygiadau

| Adran y Bil | Ffurf | Disgrifiad o'r pŵer |
|---|---|---|
| Adran 50(2) | Cyfarwyddyd | Mae’r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddyroddi cyfarwyddyd i oedi adolygiad hyd at ddyddiad penodedig neu hyd nes y dyroddir cyfarwyddyd pellach. |

**Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi’r Pŵer**

Bydd rhoi pwerau gwneud cyfarwyddydau i Weinidogion Cymru i oedi adolygiad yn sicrhau hyblygrwydd pan fo amgylchiadau annisgwyl sy’n effeithio’n andwyol ar gynnal y broses adolygu. Enghraifft o hyn yw’r amgylchiadau a wynebwyd yn sgil pandemig COVID-19. Bydd gan Weinidogion Cymru y pŵer i oedi adolygiad am gyfnod neu gyfnodau nad ydynt, gyda’i gilydd, yn fwy na chyfnod o 9 mis ar y mwyaf.

Os bydd tarfu o unrhyw fath, fel argyfwng iechyd cyhoeddus neu newid dyddiad etholiadau llywodraeth leol, ni fyddai Gweinidogion Cymru yn gallu lliniaru’r effaith ar y broses adolygu heb y ddarpariaeth hon.

## Swyddogaethau Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru sy'n ymwneud â chydnabyddiaeth ariannol

| Adran y Bil | Ffurf | Disgrifiad o'r pŵer |
|---|---|---|
| Adran 57(2) (yn mewnosod adran 69R yn Neddf 2013) | Rheoliadau | Mae’r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i addasu Rhan 5A i ychwanegu, amrywio neu hepgor darpariaeth sy’n ymwneud â swyddogaeth y Comisiwn neu sy'n gosod swyddogaeth arno. |

**Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi’r Pŵer**

Mae’n atgynhyrchu’r pŵer a’r weithdrefn yn adran 158 o Fesur 2011. Mae angen cadw'r hyblygrwydd hwn i ymateb yn ôl yr angen i ddatblygiadau polisi yn y maes hwn.

| Adran y Bil | Ffurf | Disgrifiad o'r pŵer |
|---|---|---|
| Adran 57(2) (yn mewnosod adran 69K(2)(d) yn Neddf 2013) | Rheoliadau | Mae’n galluogi Gweinidogion Cymru i ddynodi corff cyhoeddus perthnasol at ddibenion yr wybodaeth y caniateir ei chynnwys mewn adroddiad blynyddol ar gydnabyddiaeth ariannol o dan adran 69K. |

**Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi’r Pŵer**

Mae'n galluogi tryloywder llawn ynghylch y gydnabyddiaeth ariannol y mae cynghorwyr yn ei chael gan gyrff cyhoeddus, yn ogystal â chan eu cyngor eu hunain.

| Adran y Bil | Ffurf | Disgrifiad o'r pŵer |
|---|---|---|
| Adran 57(2) (yn mewnosod adran 69C(2)(e) yn Neddf 2013) | Rheoliadau | Mae’r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu cyrff sy’n dod o dan y diffiniad o’r term awdurdod perthnasol at ddibenion Rhan 5A. |

**Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi’r Pŵer**

Byddai’r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu cyrff o fewn y teulu llywodraeth leol at y rhestr o gyrff y byddai’n ofynnol iddynt ddilyn penderfyniadau'r Comisiwn mewn perthynas â thaliadau a phensiynau.

| Adran y Bil | Ffurf | Disgrifiad o'r pŵer |
|---|---|---|
| Adran 57(2) (yn mewnosod adran 69D(1)(b) yn Neddf 2013) | Rheoliadau | Mae’r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu mewn rheoliadau ddisgrifiad o aelodau awdurdod lleol y byddai taliad ailsefydlu yn gymwys iddynt. |

**Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi’r Pŵer**

Ar y cyfan, mae'r pŵer hwn yn dechnegol ei natur a byddai’n galluogi Gweinidogion Cymru i bennu’r disgrifiad o aelodau awdurdod lleol y byddai unrhyw daliadau ailsefydlu yn gymwys iddynt yn y dyfodol. Byddai’r Comisiwn wedyn yn gyfrifol am osod yr amodau cymhwyso y byddai’n rhaid i unigolion eu bodloni cyn derbyn taliad.

| Adran y Bil | Ffurf | Disgrifiad o'r pŵer |
|---|---|---|
| Adran 57(2) (yn mewnosod adran 69H(1) yn Neddf 2013) | Cyfarwyddydau | Mae’r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo’r Comisiwn i ailystyried darpariaeth mewn fersiynau drafft o adroddiad blynyddol neu adroddiad atodol. |
| Adran 57(2) (yn mewnosod 69M(1) yn Neddf 2013) | Cyfarwyddydau | Mae’r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddyroddi cyfarwyddyd i awdurdod lleol gydymffurfio â gofyniad a nodir gan y Comisiwn. |
| Adran 57(2) (yn mewnosod adran 69O(3) yn Neddf 2013) | Cyfarwyddydau | Mae’r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo awdurdod lleol i gadw taliadau yn ôl mewn cysylltiad â chydnabyddiaeth ariannol. |
| Adran 57(2) (yn mewnosod adran 69P(2) yn Neddf 2013) | Canllawiau | Mae’r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau i’r Comisiwn mewn perthynas ag arfer ei swyddogaethau o dan y Bil. |

**Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi’r Pŵer**

Mae’r darpariaethau hyn eisoes yn bodoli ym Mesur 2011. Maent yn cael eu hatgynhyrchu o ganlyniad i’r swyddogaethau a roddir i'r Comisiwn drwy’r Bil hwn a thrwy ddiddymu Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Maent yn:

- Galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo'r Comisiwn i ailystyried darpariaeth o adroddiad drafft neu atodol. Pan fo Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi cyfarwyddyd, rhaid iddo nodi pa ddarpariaeth y mae'n ymwneud ag ef, y rheswm dros roi'r cyfarwyddyd a'r dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid i'r Comisiwn ymateb i'r cyfarwyddyd. Nid oes rheidrwydd ar y Comisiwn i amrywio'r adroddiad drafft, ond rhaid iddo ymateb ac egluro a yw'n penderfynu peidio â gwneud newid. Mae’n rhaid i'r Comisiwn beidio â chyhoeddi adroddiad y cyhoeddwyd cyfarwyddyd ar ei gyfer cyn ymateb i'r cyfarwyddyd.

- Yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gydymffurfio â gofynion penderfyniadau'r Comisiwn fel y'u nodir mewn adroddiad blynyddol neu atodol ac yn rhoi'r grym i'r Comisiwn fonitro gweithrediad a rheolaeth y taliadau a wneir gan yr awdurdodau yr effeithir arnynt gan ei benderfyniadau. Mae'r Comisiwn wedi'i rymuso i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau ddarparu manylion eu taliadau a'u cyfraddau talu gwirioneddol. Rhaid i'r awdurdod gydymffurfio â chais o'r fath. Y bwriad yw diogelu annibyniaeth y Comisiwn a sicrhau cysondeb o ran dull gweithredu ar draws Cymru. Pan ddefnyddir cyfarwyddyd, rhaid i Weinidogion Cymru fod yn fodlon bod methiant wedi bod i gydymffurfio â gofyniad i benderfynu ar y Comisiwn, bod yn glir ynghylch y disgwyl, ac erbyn pryd.

- Yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod atal taliadau i bersonau mewn perthynas â'r materion perthnasol a bennir yn y cyfarwyddyd a chyfarwyddo awdurdod i beidio â gwneud taliad adsefydlu. Bydd hyn yn diogelu buddiannau ariannol lle bo angen ac yn sicrhau na wneir taliadau pan na fyddai hynny'n briodol. sydd wedi'u hatal rhag bod yn gynghorydd (neu wedi'u hatal yn rhannol) yn rhinwedd Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 o ganlyniad i ddyfarniad gan bwyllgor safonau lleol neu gan dribiwnlys achos neu dribiwnlys achos interim ynghylch a oedd y cynghorydd wedi cydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod lleol.

- Galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i'r Comisiwn mewn perthynas â'i swyddogaethau mewn perthynas â thâl aelodau etholedig ynghylch swyddogaethau'r Comisiwn. Ystyrir bod y pŵer hwn yn angenrheidiol i ddarparu arweiniad a chysondeb lle bo angen.